# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Angladdau a Phrofedigaeth

17 Mehefin 2015

**Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**

**Yn bresennol:**

Mark Isherwood AC (Cadeirydd)
Rhodri Glyn Thomas AC
Russell George AC
Janet Finch-Saunders AC
William Graham AC
Roy Folland
Alan Slater
Philip Blatchly
Patricia Vernon
Paul Rees
David Beamer (Ysgrifennydd)

**Eitem 1: Ymddiheuriadau**

Darren Millar AC
Janice Gregory AC
Antoinette Sandbach AC
Simon Thomas AC
Paul Davies AC
Julie Morgan AC
Janette Bourne
Lorraine Barrett
Martin Birch
Nigel Lymn Rose
Robin Moulter
Fran Targett

**Eitem 2: Cymeradwyo'r cofnodion**

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf.

**Eitem 3: Ethol swyddogion**

Etholwyd y swyddogion a ganlyn: Mark Isherwood AC (Cadeirydd); David Beamer (Ysgrifennydd)

**Eitem 4: Y wybodaeth ddiweddaraf**

Dywedodd yr Ysgrifennydd bod CAB yn methu â gwneud cyflwyniad yn y cyfarfod hwn.

Anfonwyd llythyrau at yr IoD, Ffederasiwn Busnesau Bach, CBI a'r dau Siambr Fasnach yng Nghymru ynghylch canllawiau ACAS ar brofedigaeth yn y gweithle. Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd nad oedd y cynnig rheol deng munud gan Emma Lewell-Buck AS a drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf wedi symud ymlaen.

Anfonwyd llythyr at Jane Ellison AS, Gweinidog y DU dros Iechyd y Cyhoedd, yn dilyn yr Etholiad Cyffredinol yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am ardystio marwolaeth.

Roedd Mark Drakeford AC wedi awgrymu'n garedig y gallai Patricia Vernon ddod i'n cyfarfod heddiw i drafod newidiadau o ran rhoi organau yn dilyn cais gan y Cadeirydd.

**Eitem 5: Cyflwyniad gan Patricia Vernon, Llywodraeth Cymru, ar drefniadau newydd ar gyfer rhoi organau**

Roedd Pat Vernon (PV), arweinydd polisi ar gyfer gweithredu Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013, yn bresennol i roi trosolwg o'r gyfraith newydd i aelodau ac ateb cwestiynau. Eglurodd PV yn fyr y rhesymeg y tu ôl i'r newid yn y gyfraith a sut y disgwylir y bydd yn arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n rhoi organau ac, o ganlyniad i hynny, cynnydd yn nifer y trawsblaniadau organ sy'n achub bywydau. Ar sail adolygiad o'r dystiolaeth ryngwladol, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl gweld cynnydd o 25 y cant yn nifer y rhoddwyr. Mae hyn yn cyfateb i tua 15 o roddwyr ychwanegol y flwyddyn yng Nghymru. Ar gyfartaledd, gallai pob rhoddwr roi 3 o organau, felly gallai hyn olygu y byddai 45 o organau ychwanegol ar gael.

Bydd y gyfraith newydd yn dod i rym ar 1 Rhagfyr 2015 a bydd system ganiatâd feddal o optio allan. Mae hyn yn golygu oni bai bod person wedi mynegi penderfyniad i beidio â bod yn rhoddwr (optio allan), ystyrir nad oes ganddynt unrhyw wrthwynebiad i roi eu horganau ac ystyrir eu bod wedi rhoi eu caniatâd. Eglurodd PV pa mor anaml y rhoddir organau yn ymarferol ac mai ychydig iawn o bobl sy'n marw o dan amgylchiadau lle byddai rhoi organau yn bosibl - hynny yw, mewn uned gofal dwys ysbyty neu mewn adran argyfwng, ar beiriant anadlu. Nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn marw o dan yr amgylchiadau hyn. Fodd bynnag, roedd yn bwysig egluro penderfyniad cymaint o bobl ag y bo modd o ran rhoi organau, rhag ofn y byddai bod yn rhoddwr yn dod yn realiti.

Darparodd PV rhywfaint o wybodaeth am yr ymgyrch gyfathrebu sy'n ceisio codi ymwybyddiaeth o'r gyfraith ymhlith y cyhoedd yng Nghymru a chafodd yr aelodau weld taflen a oedd yn cael ei rhoi i bob cartref yng Nghymru a deunyddiau eraill. Pwysleisiodd nad yw rhoi organau yn effeithio ar drefniadau angladdau. Gofynnodd Mr Blatchly a allai fod yn broblem os byddai trefnydd angladdau yn symud corff o ysbyty - ysbyty cymunedol, er enghraifft - pan fo'r person wedi nodi ei fod eisiau bod yn rhoddwr ond lle nad oedd wedi gallu digwydd. Dywedodd PV y gellid hwyluso rhoi organau mewn rhai lleoliadau yn unig, ac na fyddai trosedd yn cael ei gyflawni drwy beidio â bwrw ymlaen â'r broses o roi/trawsblannu organau mewn lleoliadau lle nad oedd yn bosibl gwneud hynny. Yr unig drosedd posibl fyddai bwrw ymlaen â'r broses o roi/trawsblannu organau heb gael caniatâd tybiedig neu datganedig. Felly nid oes problem o ran cael gwared ar gyrff.

Cafwyd peth trafodaeth ynghylch a allai trefnwyr angladdau ddosbarthu taflenni i bobl pan fyddant yn penderfynu ar gynllun angladd ac awgrymodd Mr Slater y byddai Graeme McAusland o'r Awdurdod Cynllunio Angladdau yn gyswllt da. Cytunodd PV hefyd i ddarparu sesiwn friffio holi ac ateb ar gyfer Cymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr

Angladdau i anfon at yr aelodau er gwybodaeth. Bydd yn cysylltu'n uniongyrchol â Mr Slater ynglŷn â hyn.

**Eitem 6: Cyflwyniad gan Paul Rees, Yr Eglwys yng Nghymru, ar gladdu yng Nghymru**

Bu i Paul Rees, Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Eiddo yr Eglwys yng Nghymru, amlinellu deddfwriaeth sy'n ymdrin â mynwentydd yng Nghymru a'r heriau a ddeilliodd o'r ddeddfwriaeth hon.

Ffurfiwyd yr Eglwys yng Nghymru yn 1920 ar ôl datgysylltu Eglwys Loegr yng Nghymru. Roedd datgysylltu yn cynnwys trosglwyddo asedau eiddo Eglwys Loegr. Cafodd rhai hen fynwentydd eu trosglwyddo i Gorff y Cynrychiolwyr yn ystod y datgysylltu ond ni chafodd nifer fawr ohonynt eu trosglwyddo. Roedd Deddf Eglwys Cymru 1914 yn darparu ar gyfer trosglwyddo'r mynwentydd i awdurdodau lleol ar adeg y datgysylltu. Fodd bynnag, roedd y ddarpariaeth hon yn ddewisol (o ganlyniad i Ddeddf Meddiannau Lleyg Eglwys Cymru 1919) a ni ddewisiodd llawer o awdurdodau lleol i'w cymryd i'w meddiant. Mae'r rhan fwyaf o fynwentydd yn parhau i dderbyn gofal gan blwyfi'r Eglwys yng Nghymru ac roeddent mewn limbo o safbwynt cyfreithiol tan Ddeddf Eglwys Cymru (Claddfeydd) 1945. O dan y Ddeddf hon, daeth yr Eglwys yng Nghymru yn gyfrifol am yr holl fynwentydd nad oeddent wedi'u trosglwyddo i'r awdurdodau lleol yn barod (700 ohonynt).

Cododd Janet Finch-Saunders AC fater sy'n berthnasol i'w hetholaeth a chynigodd Mr Rees i gysylltu gyda hi i roi cymorth.

**Eitem 7: Unrhyw fater arall**

Dim eitemau.

**Eitem 8: Dyddiad y cyfarfod nesaf**

I'w gadarnhau.